Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Noson Gymdeithasol / Barbeciw (yn parhau glaw neu hindda) – cynhelir y Noson Gymdeithasol / Barbeciw ar nos Iau, Gorffennaf 18fed am 6 o'r gloch. Pris mynediad sy'n cynnwys bwyd fydd £3.50 (os ydych yn archebu ymlaen llaw) neu £5.00 ar y gât ar y noson. PRIS TOCYNNAU AR GYFER DISGYBLION YR YSGOL FYDD £2.00 (os ydych yn archebu ymlaen llaw) neu £3.00 ar y noson

Mi fydd dewis ar gael;

1. Barbeciw arferol
2. Barbeciw llysieuol
3. Cig rhost – yn rhoddedig gan **Mr Aled Morgan y Cigydd**

Chwaraeon potes ar gyfer y disgyblion i gychwyn am 6.15. Mi fydd Band Prês Mr Alan Phillips yn chwarae yn ystod y noson.

Noson Agored – mi fyddwn yn dosbarthu adroddiadau cofnod cynnydd i bob disgybl ar ddydd Gwener, Gorfennaf 12fed. Os oes agweddau sydd angen eglurhad pellach neu unrhyw faterion sydd angen eu trafod yna mi fydd yr athrawon yn yr ysgol o 3.30 tan 5 o'r gloch ar nos Lun, Gorffennaf 15fed. Mi fydd angen i chwi gysylltu â Mrs Wendy James, ysgrifenyddes yr ysgol er mwyn gwneud apwyntiad.

Taith gerdded Cerddwn Ymlaen gyda Rhys Meirion er budd Ambiwlans Awyr Cymru – mi fydd disgyblion Blwyddyn 6 yn cerdded o'r ysgol, ar hyd y Prom ac yna ymlaen tuag at pentref Clarach ar fore dydd Mercher, Gorffennaf 17eg. Mi fydd angen dillad ac esgidiau addas. Mi fydd y disgyblion yn dychwelyd erbyn cinio. Mi fydd Blwyddyn 6 yn tefnu amrywiaeth o weithgareddau i godi arian tuag at yr ymgyrch yn ystod yr wythnos nesaf (gweler llythyr gan y Cyngor Ysgol)

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith

R C Williams, Pennaeth 10/7/13

SOCIAL EVENING / BARBEQUE (to continue rain or shine) *– the Social evening / Barbeque will be held on Thursday evening, July 18th at 6 o'clock. Entrance fee including food will be £3.50 (in advance) or £5.00 at the gate on the evening.*
TICKETS FOR SCHOOL CHILDREN WILL COST £2.00 in advance or £3.00 on the evening

There will be a choice of food available

1. *Usual barbeque*
2. *Vegetarian barbeque*
3. *Roast meat – kindly donated by* ***Mr Aled Morgan the Butcher***

Games for children will start at 6.15. A Brass Band organised by Mr Alan Phillips will be playing during the evening.

Open Evening *– we will be distributing progress reports for all pupils on Friday, July 12th. If there are any aspects that need further explanation or issues that need to be discussed then the teachers will be available at school on Monday, July 15th from 3.30 until 5 o'clock. You will need to contact the school secretary, Mrs Wendy James to make an appointment.*

Walk on for Wales lead by Rhys Meirion in aid of the Welsh Air Ambulance service – *year 6 pupils will be walking from school, along the Prom and on towards Clarach on Wednesday morning, July 17th. Please bring suitable clothing and footwear. Pupils will return to school for lunch (year 6 will be organising a variety of fund raising activities during next week (please see letter from the School Council).*

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher, 10/7/13